sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Eich cyf / Your ref:

Fy nghyf / My ref:

Dyddiad / Date: 15/06/2026

Gofynner am / Please ask for: Tîm RhMY

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

E-bost / E-mail:

MEPConsultations@carmarthenshire.gov.uk

Annwyl Ymgynghorai

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –**
**Cynnig i newid Ystod Oedran Ysgol Cwrt Henri o 4-11 i 3-11**

Ar ddydd Mercher 10 Mehefin 2026, gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin benderfynu cymeradwyo'r cynnig canlynol:

**I newid ystod oedran Ysgol Cwrt Henri o 4-11 i 3-11**
**a darparu 6 lle meithrin o 1 Medi 2026 ymlaen.**

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig** – Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Wrth ddod i'w benderfyniad, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac wedi ystyried y ffactorau perthnasol a nodir ynddo. Nododd y Cyngor nad oedd unrhyw wrthwynebiadau ac un sylw cefnogol wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod gwrthwynebiad statudol.

Ystyriodd y Cyngor yn ofalus gynnwys y sylw cefnogol a dderbyniwyd ac ymateb yr Awdurdod Lleol fel y'i nodir yn yr Adroddiad Gwrthwynebiad a gyhoeddwyd. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y materion a godwyd wedi cael sylw yn briodol.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu ar gyfer y cynnig uchod ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin trwy ddilyn y ddolen isod:

Adroddiad Gwrthwynebu

**Ystyried Ffactorau o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)**

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i'r ffactorau a nodir ym mharagraffau 1.3 i 1.6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys yn benodol y canlynol:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd a safonau addysg, gan gynnwys cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol dilynol yn yr ysgol. Rhagwelir y bydd y cynnig yn cynnal, ac o bosibl yn gwella, safonau cyfredol y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol a'r ardal ehangach.

Mae Estyn wedi cynghori bod y cynnig yn *"debygol o ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant 3–11 oed ar safon sy'n hafal o leiaf â'i gynnig 4–11 oed presennol".* Mae hyn yn cefnogi'r farn y bydd y cynnig yn cynnal addysgu a dysgu o ansawdd uchel ac yn darparu parhad ym mhrofiadau addysgol disgyblion o oedran cynharach.

Disgwylir i ymestyn yr ystod oedran gryfhau dilyniant a throsglwyddo rhwng darpariaeth blynyddoedd cynnar a'r Cyfnod Sylfaen, gan gefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr dros amser. Mae'r Cyngor yn fodlon y bydd y cynnig yn cynnal safonau addysg uchel ac yn cefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, roedd y Cyngor yn credu y byddai newid yr ystod oedran yn gwella'r capasiti ar gyfer plant yn y gymuned leol ac yn golygu y byddai Ysgol Cwrt Henri yn gydnaws â'r rhan fwyaf o ysgolion eraill yn yr ardal yn unol â dileu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed.

Bydd y cynnig yn darparu lleoedd meithrin cyfrwng Cymraeg ychwanegol i ateb y galw lleol a chefnogi dewis rhieni yn y dalgylch.

Bydd yn galluogi plant i gael mynediad at ddarpariaeth feithrin yn eu hysgol leol, gan leihau'r angen am deithio i leoliadau amgen. Disgwylir i hyn gael effaith gadarnhaol ar hygyrchedd, lleihau amseroedd teithio a lleihau pwysau logistaidd ar deuluoedd.

Mae cyd-leoli darpariaeth feithrin a darpariaeth gynradd hefyd yn debygol o wella parhad y ddarpariaeth a hwyluso pontio i ddysgwyr, yn enwedig i deuluoedd â brodyr a chwiorydd sy'n mynychu'r un ysgol.

**Adnoddau addysg**

Bydd ymestyn ystod oedran yr ysgol yn darparu fframwaith mwy cydlynol ac effeithiol ar gyfer darparu addysg, gan alluogi'r ysgol i adeiladu ar gryfderau presennol a darparu darpariaeth barhaus ar draws ystod oedran ehangach.

Bydd y cynnig yn cefnogi'r defnydd effeithlon ac effeithiol o staffio, llety ac adnoddau dysgu, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu gwneud i'r eithaf i gefnogi canlyniadau gwell i bob dysgwr.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y bydd Ysgol Cwrt Henri yn parhau i gael ei hariannu yn unol â Pholisi Ariannu Teg yr Awdurdod. Bydd yr ysgol yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag ysgolion eraill yn y sir, gyda'r cyllid yn cael ei bennu'n bennaf gan niferoedd disgyblion. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y cynnig yn gynaliadwy yn ariannol ac nad yw'n effeithio'n andwyol ar adnoddau darpariaeth addysg yn yr ysgol neu mewn mannau eraill.

**Effaith ar y Gymraeg**

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i baragraff 1.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys y gofyniad i ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'i aliniad â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod.

Bydd y cynnig yn cynyddu mynediad at ddarpariaeth meithrin cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol drwy ymestyn y ddarpariaeth yn Ysgol Cwrt Henri o 4–11 i 3–11. Disgwylir i hyn gefnogi'r broses o addysg cyfrwng Cymraeg yn gynharach a chryfhau dilyniant i addysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ehangach ac mae'n fodlon y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, a bod y cynnig yn gyson â'r amcanion a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod.

**Penderfyniad**

Ar ôl ystyried y ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), ac am y rhesymau a amlinellir uchod, mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig.

**Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**

Sylwch nad yw'r wybodaeth isod yn berthnasol i rieni/gwarchodwyr ond mae wedi'i darparu er mwyn cyflawned.

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r tim RhMY.

Yn gywir

**Tîm Rhaglen Moderneiddio Ysgolion**